



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Adroddiad ar Alldro 2024-25

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg i Bwyllgor Cyllid y Senedd ar alldro Llywodraeth Cymru 2024-25 yn erbyn y gwariant arfaethedig a gynhwysir yn Ail Gyllideb Atodol 2024-25. Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2025.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Alldro'r Prif Grwpiau Gwariant 2024-25.....	4
3. Cario symiau ymlaen yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru	17
ATODIAD 1: Alldro DEL Adnoddau yn ôl BEL	20
ATODIAD 2: Alldro DEL Cyfalaf yn ôl BEL	20
ATODIAD 3: Alldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ôl BEL	26

1. Cyflwyniad

1.1 Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â'r protocol a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Mawrth 2012 ynghylch newidiadau i gynnydd y gyllideb a'u heffeithiau ar gylch y gyllideb yn ystod y flwyddyn.

1.2 Fel rhan o'r protocol, cytunodd Llywodraeth Cymru ar y canlynol:

Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn modd agored a thryloyw, bydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor [Cyllid] ar y canlyniadau terfynol. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys cymhariaeth â'r cynlluniau gwario a nodwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn ac eglurhad o'r amrywiadau sylweddol.

1.3 Cafodd yr ymrwymiad hwn ei ailddatgan yn y protocol diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 21 Mehefin 2017.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r ymrwymiad hwnnw ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.

1.5 Cymeradwywyd Ail Gyllideb Atodol 2024-25 gan y Senedd ar 18 Mawrth 2025. Mae'r alldro terfynol yn dilyn cyhoeddi Cyfrifon Cyfunol Blynnyddol Llywodraeth Cymru ar 15 Rhagfyr 2025. Mae'r cyfrifon ar gael drwy'r ddolen rhyngwyd isod.

[Cyfrifon cyfunol blynnyddol Llywodraeth Cymru 2024-2025](#)

1.6 Ni wnaed unrhyw ddyraniadau cyllidebol ychwanegol o gronfeydd wrth gefn rhwng dyddiad cyhoeddi'r gyllideb a diwedd y flwyddyn ariannol.

- 1.7** Llunnir yr adroddiad ar yr alldro ar sail strwythur cyllideb Llywodraeth Cymru a oedd mewn grym ar ddiwedd y flwyddyn ac a gaiff ei gofnodi yn y cyfrifon blynyddol archwiliedig.

2. Alldro'r Prif Grwpiau Gwariant¹ 2024-25

- 2.1** Mae Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys Crynodeb o Alldro Adnoddau yn erbyn y cyfansymiau rheoli a gymeradwywyd yng nghynnig Ail Gyllideb Atodol 2024-25.
- 2.2** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion yr alldro terfynol yn erbyn y rheolaethau lefel is sy'n cael eu gweithredu a'u gorfodi gan Drysorlys EF. Adroddir ar y cyllidebau gweinyddol hyn yn y dogfennau a'r tablau a oedd yn cyd-fynd ag Ail Gyllideb Atodol 2024-25.
- 2.3** Yn unol â'r blynyddoedd blaenorol, mae'r adroddiad hefyd yn darparu esboniadau o bob gorwariant ynghyd ag unrhyw danwariannau o fwy nag 1% mewn cyllidebau ar lefel Prif Grŵp Gwariant (MEG) ym mhob un o'r cyfansymiau rheoli (yn ddarostyngedig i lefel de minimis o £1m).
- 2.4** Mae'r alldro wedi cael ei ddadansoddi ymhellach i'r lefel a gyhoeddwyd yn Ail Gyllideb Atodol 2024-25. Mae'r tablau a gyhoeddwyd gyda'r gyllideb yn dangos dadansoddiad i Linellau Gwariant yn y Gyllideb neu 'BELs'. Mae'r alldro yn erbyn y gyllideb yn cael ei ddarparu ar y sail hon yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn.

¹ Cyllideb lefel uwch sy'n cynrychioli portffolio gweinidogol neu gyllideb weinyddu ganolog yw Prif Grŵp Gwariant neu MEG.

Alldro DEL Adnoddau (Refeniw)

DEL Adnoddau Cyllidol²

2.5 Arweiniodd yr alldro Adnoddau Cyllidol ar gyfer y flwyddyn at danwariant o £96.1m, sef amrywiant o 0.5% yn y gyllideb.

2.6 Mae Tabl 2.1 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

Tabl 2.1: Alldro Adnoddau Cyllidol yn ôl MEG	Cyllideb £m	Alldro £m	Tanwariant/Gorwariant £m	%
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	11,702.7	11,686.6	16.1	0.1
Llywodraeth Leol a Thai	5,197.8	5,196.0	1.8	-
Addysg	1,821.2	1,812.6	8.6	0.5
Trafnidiaeth	570.2	570.9	-0.7	-0.1
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	554.8	544.0	10.8	1.9
Yr Economi, Ynni a Chynllunio	469.7	411.0	58.7	12.5
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	407.1	408.3	-1.2	-0.3
Cyfiawnder Cymdeithasol	139.4	137.4	2.0	1.4
CYFANSWM	20,862.9	20,766.8	96.1	0.5

2.7 Roedd yr amrywiannau yn y tanwariant ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a Thai yn is nag 1%.

2.8 Roedd tanwariant o £8.6m yn y MEG Addysg. Y prif amrywiant oedd tanwariant o £8.2m ar gyllidebau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru/Medr³. Cadarnhawyd yr alldro adnoddau gan swyddogion Medr yn hwyr yn y flwyddyn ariannol. Roedd amrywiannau eraill mewn cyllidebau seiliedig ar alw, y cynlluniwyd ar eu cyfer ac a gafodd eu rheoli o fewn y MEG. Roedd y rhain yn cynnwys tanwariant o £12.4m ar y rhaglen Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Cynradd, lle'r oedd hawliadau gan awdurdodau lleol yn llai na'r disgwyl. Roedd tanwariant o £2m hefyd ar y gyllideb Datblygu a Chymorth Athrawon. Cafodd y rhain eu gwrthbwysu

² Mae DEL Adnoddau Cyllidol yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EF ac yn is-set o Adnoddau DEL a chyfeirir ato fel 'refeniw' hefyd.

³ Ar 1 Awst 2024, disodlwyd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gan Medr, sef y corff newydd sy'n gyfrifol am ariannu a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil.

gan orwariannau a gynlluniwyd, gan gynnwys £3m ar raglenni astudio ôl-16 mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol a'r ffi weinyddol o £3.8m a dalwyd i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr. Arweiniodd cymorth pellach ar gyfer safonau ysgolion drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol at orwariant o £6.5m. Roedd gorwariannau hefyd o £1.5m ar y gyllideb Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad ac £1.3m ar y gyllideb Cwricwlwm ac Asesu.

2.9 Roedd gorwariant bach ar gyllideb y MEG Trafnidiaeth. Roedd y gorwariant yn cynnwys alldro terfynol Trafnidiaeth Cymru, a arweiniodd at orwariant o £67.2m. Cafodd hyn ei wrthbwysu gan danwariant o £66m ar gyllidebau Cymorth i Fysiau. Roedd y sefyllfa hefyd yn cynnwys sawl enghraifft arall o orwariannau a thanwariannau yn gwrthbwysu ei gilydd.

2.10 Roedd y tanwariant o £10.8m a adroddwyd ar y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn deillio o arbediad net ar draws sawl llinell yn y gyllideb. Ymhlith y prif danwariannau yn y MEG roedd £8.3m ar gyllidebau Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, £4.4m ar Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd, £3.4m ar Reolaethau'r Ffin a £2.3m ar yr Amgylchedd. Ailddyrannwyd elfen o'r tanwariannau hyn i gefnogi blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg. Ymhlith y prif orwariannau roedd £7.6m ar gyllidebau Iechyd a Lles Anifeiliaid a £4.1m ar grantiau i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

2.11 Roedd tanwariant o £58.7m ym MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio, sy'n cynrychioli 61% o gyfanswm yr amrywiant ar gyfer Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru. Roedd y tanwariant yn deillio o amrywiannau mewn sawl llinell yn y gyllideb. Roedd y prif amrywiant yn erbyn Banc Datblygu Cymru, a adroddodd am addasiadau yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, gan arwain at danwariant o £44m. Roedd tanwariant pellach o £20.7m ar y gyllideb Ynni Gwyrdd oherwydd na ddefnyddiwyd cynlluniau wrth gefn. Adroddwyd am danwariannau pellach gwerth cyfanswm o £4.8m ar y cyllidebau sy'n cwmpasu cyrff celfyddydol a diwylliannol, yn dilyn adrodd am addasiadau yn hwyr yn y flwyddyn, a thanwariant o £1.1m ar

gyllidebau Sectorau a Busnes. Cafodd y rhain eu gwrthbwysu gan orwariant o £7.6m ar gyllideb Cadw yn dilyn newid yn y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer asedau treftadaeth, gorwariant o £5.4m ar Seilwaith Eiddo oherwydd llithriant mewn gwerthiannau sy'n gysylltiedig ag eiddo a gorwariant o £1.3m ar y gyllideb Twristiaeth.

2.12 Roedd gorwariant o £1.2m ar y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Roedd y sefyllfa yn cynnwys gorwariant o £8m ar gyllideb costau pontio'r UE. Roedd gorwariant o £1.8m hefyd mewn perthynas ag Uned Tribiwnlysoedd Cymru, a gododd oherwydd natur y gwaith seiliedig ar alw, ynghyd â dyfarniadau cyflog barnwrol i sicrhau cydraddoldeb cyflog â Lloegr, cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn a dyfarniadau cyflog. Roedd gorwariant o £1.5m ar y gyllideb Technoleg Gwybodaeth oherwydd costau rhedeg blynyddol y system Adnoddau Dynol newydd, ynghyd â phwysau chwyddiant a chostau prosiect annisgwyl. Cafodd effaith y gorwariannau ei lleihau gan arbedion o £3.2m ar y gyllideb Costau Gweinyddu Cyffredinol, a oedd yn bennaf oherwydd rhyddhau addasiadau cronol hanesyddol, a thanwariannau o £3m ar y gyllideb Gwasanaethau Caffael, £2.6m ar Gostau Staff ac £1.1m mewn perthynas ag Ymchwiliad Covid-19.

2.13 Adroddodd y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol danwariant o £2m. Roedd tanwariant o £9.4m ar y gyllideb Cynhwysiant Ariannol, sy'n cynnwys y Gronfa Cymorth Dewisol, sef cymorth seiliedig ar alw. Yn ystod y flwyddyn, profodd y Gronfa gyfraddau cymeradwyo is ar gyfer ceisiadau mewn un chwarter. Cafwyd arbediad o £1.1m hefyd ar y gyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys swyddi gwag ac oedi wrth gyflawni gweithgareddau amrywiol. Cafodd y rhain eu gwrthbwysu gan orwariant o £6.7m ar y gyllideb Cymunedau Cydlynus, a ddeilliodd o ddarparu cymorth ychwanegol i awdurdodau lleol i gefnogi gwasanaethau digartrefedd ac i gydnabod y gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth y DU. Roedd gorwariant o £1.9m hefyd ar y gyllideb Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli. Roedd hyn oherwydd y penderfyniad i ddarparu arian

cyfatebol ar gyfer grantiau a weinyddir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar ran Comic Relief. Yn olaf, roedd gorwariant o £1.3m ar y gyllideb Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a oedd yn ymwneud â chymorth ychwanegol i wasanaethau rheng flaen, gan gynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer Partneriaethau Rhanbarthol.

DEL Adnoddau Anghyllidol⁴

2.14 Cafwyd tanwariant o £70.3m yn y gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol, sef amrywiant o 6% o'r gyllideb. Mae'n bwysig nodi bod y gyllideb Adnoddau Anghyllidol wedi'i chlustnodi ac na ellir ei hailgyfeirio i raglenni gwariant Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllidebau hyn yn cwmpasu addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn galw am arian parod megis dibrisiant a darpariaeth i ddileu taliadau benthyciadau i fyfyrwyr.

2.15 Mae Tabl 2.2 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

Tabl 2.2: Alldro Adnoddau Anghyllidol yn ôl MEG	Cyllideb £m	Alldro £m	Tanwariant/ Gorwariant £m	%
Addysg	432.5	263.5	169.0	39.1
Trafnidiaeth	348.7	463.0	-114.3	-32.8
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	318.8	314.5	4.3	1.4
Yr Economi, Ynni a Chynllunio	35.8	26.5	9.3	25.9
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	22.0	22.7	-0.7	-3.2
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	18.7	15.7	3.0	16.1
Cyfiawnder Cymdeithasol	0.6	0.6	-	-
Llywodraeth Leol a Thai	-	0.3	-0.3	-
CYFANSWM	1,177.1	1,106.8	70.3	6.0

2.16 Roedd yr amrywiant yn y MEG Addysg yn danwariant o £169m. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, priodolwyd yr amrywiant yn gyfan gwbl i'r tâl ar gyfer Benthyciadau i Fyfyrwyr. Mae gwerth benthyciadau newydd a hanesyddol yn cael ei bennu gan fodel ystadegol sy'n darparu'r swm sy'n

⁴ Mae DEL Adnoddau Anghyllidol yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EF sy'n cwmpasu addasiadau cyfrifyddu blynyddol ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr a gafodd eu dileu, symiau eraill a gafodd eu dileu a thaliadau dibrisiant.

cael ei ddileu yn flynyddol. Mae ffactorau cymdeithasol ac economaidd yn effeithio'n sylweddol ar hyn. Roedd y tanwariant yn bennaf oherwydd na ddefnyddiwyd cronfeydd wrth gefn a oedd wedi'u cynnwys yn y gyllideb.

2.17 Roedd gorwariant o £114.3m ar gyllideb y MEG Trafnidiaeth. Roedd y gorwariant yn bennaf oherwydd newid yn y fethodoleg a ddefnyddir mewn elfen o brisiad amcangyfrifedig y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, gan arwain at gost dibrisiant ychwanegol sylweddol.

2.18 Roedd y tanwariant ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn £4.3m. Roedd dwy elfen i'r tanwariant hwn. Y gyntaf oedd oedi ar gynlluniau cyfalaf y GIG a arweiniodd at addasiadau ar gyfer dibrisiant ac amhariadau a oedd £2.2m yn llai ar gyfer yr asedau priodol. Yr ail oedd tanwariant pellach o £2.1m oherwydd amrywiannau mewn gweithgarwch o ran asedau a brydlesir ar draws sefydliadau'r GIG. Mae asedau a brydlesir yn cael eu trin fel asedau dan berchnogaeth at ddibenion cyfrifyddu.

2.19 Roedd y tanwariant o £9.3m ar gyfer yr Economi, Ynni a Chynllunio yn cynnwys taliadau amhariad a dibrisiant o fewn y portffolio eiddo (£7.9m) a Cadw (£6.1m) yn dilyn prisiadau ar ddiwedd y flwyddyn. Cafodd y rhain eu gwrthbwyso gan orwariant o £5.6m ar y gyllideb Busnes a Datblygu Rhanbarthol, a oedd hefyd o ganlyniad i daliadau prisio ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer amhariad a dibrisiant asedau.

2.20 Roedd gorwariant bach ar y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Roedd hyn yn bennaf oherwydd dibrisiant ychwanegol ar gychod pysgodfeydd newydd.

2.21 Roedd tanwariant o £3m ar y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y ddarpariaeth ar gyfer dibrisiant ystad Llywodraeth Cymru yn llai na'r hyn a oedd ei angen.

2.22 Nid oedd unrhyw amrywiant yn erbyn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol.

2.23 Mae'r gorwariant bach ar Lywodraeth Leol a Thai yn adlewyrchu'n bennaf amhariad asedau datblygu ar ddiwedd y flwyddyn o fewn y Gronfa Rhyddhau Tir nas cynlluniwyd ar ei gyfer.

Alldro DEL Cyfalaf

2.24 Adroddwyd am danwariant o £167.3m ar gyllidebau DEL Cyfalaf, sef amrywiant o 4.8% yn erbyn y gyllideb. Mae DEL Cyfalaf wedi'i rannu rhwng Cyfalaf Cyffredinol a Thrafodiadau Ariannol Cyfalaf.

Cyfalaf Cyffredinol⁵

2.25 Arweiniodd yr alldro DEL Cyfalaf Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn at danwariant o £126.6m, sef amrywiant o 3.8% yn erbyn y gyllideb.

2.26 Mae Tabl 2.3 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

Tabl 2.3: Alldro Cyfalaf Cyffredinol yn ôl MEG	Cyllideb £m	Alldro £m	Tanwariant/Gorwariant £m	%
Llywodraeth Leol a Thai	997.5	987.0	10.5	1.0
Trafnidiaeth	764.0	721.3	42.7	5.6
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	578.7	553.7	25.0	4.3
Addysg	404.6	404.9	-0.3	-0.1
Yr Economi, Ynni a Chynllunio	292.5	266.9	25.6	8.8
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	243.1	221.0	22.1	9.1
Cyfiawnder Cymdeithasol	15.7	14.8	0.9	5.1
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	9.7	9.6	0.1	1.0
CYFANSWM	3,305.8	3,179.2	126.6	3.8

2.27 Roedd tanwariant o £10.5m ar y MEG Llywodraeth Leol a Thai. Y tanwariant mwyaf oedd £47.3m ar y gyllideb Diogelwch Adeiladau, o ganlyniad i lithriant mewn ceisiadau am waith cyweirio yn ymwneud â diogelwch tân. Cafwyd tanwariannau pellach o £12.7m ar Iechyd a Thai,

⁵ Mae DEL Cyfalaf Cyffredinol yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EF sy'n cwmpasu grantiau cyfalaf ac asedau a ychwanegwyd.

£3.9m ar Dai Marchnad a Chynlluniau Eraill ar gyfer y Gronfa Eiddo Gwag, £11.6m ar y Gronfa Rhyddhau Tir ac £13.5m ar y Cynllun Nyth Cartrefi Clyd, gan adlewyrchu oedi o ran rhoi'r contract newydd ar waith yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Cafodd y tanwariannau hyn eu gwrthbwysu yn rhannol gan £28.7m o wariant ar brosiectau Adfywio a ddygwyd ymlaen, £17.3m mewn dyraniadau grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr ychwanegol i awdurdodau lleol, £2.1m o wariant ychwanegol ar gyfer y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, £16.1m a ddyrannwyd i gynlluniau Grant Tai Cymdeithasol carlam, £2m i gynlluniau Undebau Credyd i gefnogi ôl-ddyledion y dreth gyngor, £5.5m ar y Cynllun Cymorth Ariannol Brys i gefnogi hawliadau am ddifrod llifogydd a £6.5m o gyllid ychwanegol i fynd i'r afael â phwysau cyfalaf mewn awdurdodau lleol.

2.28 Adroddodd y MEG Trafnidiaeth danwariant o £42.7m ar gyfalaf cyffredinol. Cyfrannodd sawl elfen at y tanwariant. Ymhlith y tanwariannau mwyaf arwyddocaol roedd £27.9m ar gyllideb Trafnidiaeth Cymru, £33.3m ar gyllideb Gweithrediadau'r Rhwydwaith, £5.2m ar Deithio Cynaliadwy a £4.6m ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd. Roedd y tanwariannau mewn perthynas â Gweithrediadau'r Rhwydwaith, Diogelwch ar y Ffyrdd a Theithio Cynaliadwy yn bennaf oherwydd llithriant mewn prosiectau a achoswyd gan oedi wrth gaffael a ffactorau economaidd. Roedd tanwariant Trafnidiaeth Cymru yn bennaf yn danwariant mewn perthynas ag oedi ar y dyddiad cychwyn ar gyfer lesoedd cerbydau rheilffyrdd. Cafodd y rhain eu gwrthbwysu gan orwariant o £27.8m ar Adeiladu a Gwella Ffyrdd Newydd.

2.29 Roedd prif elfen y tanwariant o £25m yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwneud ag arbediad ar y gyllideb a oedd wedi'i chlustnodi ar gyfer asedau a brydlesir. Roedd hyn oherwydd llithriant mewn trefniadau prydlesu ar draws sefydliadau'r GIG yng Nghymru.

2.30 Roedd gorwariant bach ar gyllideb cyfalaf cyffredinol Addysg. Roedd hyn yn cynnwys gorwariant o £2.4m ar y gyllideb Seilwaith Addysg. Cafodd hyn ei wrthbwysu gan danwariannau o £1.1m ar gyllideb gyfalaf Medr,

£0.9m ar weinyddiaeth y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr a £0.2m ar Estyn.

2.31 Roedd tanwariant o £25.6m ym MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio. Roedd hyn yn deillio o amrywiannau mewn sawl llinell yn y gyllideb. Roedd y tanwariant mwyaf o £29.7m ar gyllidebau Sectorau a Busnes. Roedd y cyfanswm hwnnw yn cynnwys £16m ar y Gronfa Paratoi at y Dyfodol mewn perthynas ag Ardrethi Annomestig yn dilyn llithriant yn y rhaglen, llithriant o £10m ar brosiect Morglawdd Caergybi, a £2.7m ar gyllideb y Cymoedd Technoleg. Cafwyd tanwariannau pellach o £11.5m ar raglenni Seilwaith TGCh (a oedd yn ymwneud yn bennaf ag ymestyn band eang cyflym), £9m ar gyllidebau Gwyddoniaeth ac Arloesi, £8m ar fargeinion Dinesig a Thwf yn dilyn oedi ar brosiectau yn y Gogledd, £6.3m ar Ynni Gwyrdd oherwydd croniadau nas defnyddiwyd, £5.4m ar gyllidebau cyrff celfyddydol a diwylliannol a £4.8m ar Cadw yn dilyn newid yn y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer asedau treftadaeth. Mae'r rhain yn cael eu gwrthbwyso gan orwariannau o £35.2m ar gyllideb Banc Datblygu Cymru yn dilyn addasiadau hwyr, £10.4m ar brosiectau Seilwaith Eiddo sydd â'r nod o sicrhau capasiti grid mewn nifer o safleoedd allweddol, £3.1m ar gyllidebau Creadigol yn dilyn ceisiadau grant ychwanegol a £2.7m ar gyllidebau cyllid Ewropeaidd ar ôl cau'r rhaglenni.

2.32 Adroddwyd am danwariant o £22.1m ar y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Ymhlith y tanwariannau mwyaf arwyddocaol roedd £13.1m ar Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol, £7.7m ar Rheolaethau'r Ffin, £9.9m ar Gynlluniau Buddsoddi Gwledig, £1.5m ar Ddiogelwch Tomenni Glo ac £1.3m ar Leoedd Lleol ar gyfer Natur. Roedd y tanwariannau mewn perthynas ag Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol a Rheolaethau'r Ffin yn bennaf oherwydd llithriant mewn prosiectau a achoswyd gan oedi wrth gaffael a ffactorau economaidd. Roedd y tanwariant ar Gynlluniau Buddsoddi Gwledig yn adlewyrchu'r ffaith fod lefel is nag a ragwelwyd wedi manteisio ar y cynllun. Cafodd y

rhain eu gwrthbwysu gan orwariannau o £5m ar Reoli Risg Llifogydd a £3.3m ar Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

- 2.33** Roedd yr amrywiannau ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn is na'r lefel de minimis.

Trafodiadau Ariannol Cyfalaf⁶

- 2.34** Roedd tanwariant o £40.7m ar y gyllideb Trafodiadau Ariannol Cyfalaf sy'n cyfateb i amrywiant o 27.2% yn erbyn y gyllideb.

- 2.35** Mae Tabl 2.4 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

Tabl 2.4: Alldro Trafodiadau Ariannol Cyfalaf yn ôl MEG	Cyllideb £m	Alldro £m	Tanwariant/Gorwariant £m	%
Llywodraeth Leol a Thai	105.8	47.3	58.5	55.3
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	20.0	28.7	-8.7	-43.5
Yr Economi, Ynni a Chynllunio	15.9	24.8	-8.9	-56.0
Addysg	7.7	7.9	-0.2	-3.2
Cyfiawnder Cymdeithasol	0.9	0.9	-	-
Trafnidiaeth	-0.4	-0.4	-	-
CYFANSWM	149.9	109.2	40.7	27.2

- 2.36** Roedd tanwariant o £58.5m ar y MEG Llywodraeth Leol a Thai. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â thanwariant ar Gronfa Cymorth i Brynu Cymru a chynlluniau eraill, oherwydd adbrynu benthyciadau Cymorth i Brynu yn gynnar ac oherwydd i lefelau is na'r disgwyl fanteisio ar fenthyciadau Cymorth i Aros yn y flwyddyn ariannol.

- 2.37** Adroddodd y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig orwariant o £8.7m. Roedd y gorwariant ar Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ac yn arbennig y cynllun benthyciadau 'Di-garbon' nas cynlluniwyd ar ei gyfer yn yr Ail Gyllideb Atodol.

⁶ Mae DEL Trafodiadau Ariannol Cyfalaf yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EF sy'n cwmpasu cyfalaf ad-daladwy (benthyciadau ac ecwiti).

2.38 Roedd gorwariant o £8.9m ym MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio.

Roedd y gorwariant yn cynnwys £11m yn dilyn addasiadau hwyr ar gyfer Banc Datblygu Cymru. Roedd gorwariant o £3.1m hefyd ar gyllideb Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn dilyn cydnabod llog wedi'i gyfalafu. Cafodd y rhain eu gwrthbwysu gan danwariant o £4m ar draws Busnes a Datblygu Rhanbarthol, a oedd yn bennaf oherwydd llithriant ar y Gronfa Twf Busnesau Bach a Chanolig.

2.39 Roedd gorwariant bach ar y gyllideb Addysg. Roedd hyn yn ymwneud ag addasiadau cyfrifyddu ar ddiwedd y flwyddyn, gan adlewyrchu alldro'r rhaglen Model Buddsoddi Cydfuddiannol Addysg a weinyddir gan Fanc Datblygu Cymru.

2.40 Nid oedd unrhyw amrywiannau yn erbyn y cyllidebau Cyfiawnder Cymdeithasol a Thrafnidiaeth.

Aldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

2.41 Roedd cyfran fawr o'r amrywiant a adroddwyd yn y cyfrifon blynyddol yn ymwneud â thanwariannau ar gyllidebau AME.

2.42 Mae Trysorlys EF yn cydnabod pa mor ansefydlog yw rhaglenni penodol a'u bod yn seiliedig ar y galw, yn ogystal â pha mor anodd yw amcangyfrif costau dros gyfnod o amser. O ganlyniad, rheolir cyllidebau'r rhaglenni hyn yn flynyddol, a'r Trysorlys sy'n darparu'r cyllid hwn fel arfer. Mae'r rhan fwyaf o gyllidebau AME Llywodraeth Cymru yn cwmpasu addasiadau cyfrifyddu ac mae enghreifftiau'n cynnwys amhariad asedau, cynnydd mewn darpariaethau a phrisiau pensiwn cyrff a noddir. Mae benthychiadau i fyfyrwyr a roddwyd ac a ad-dalwyd hefyd yn dod o dan y dosbarthiad hwn. Ni all Llywodraeth Cymru ailddyrannu arian sydd heb ei wario ar raglenni AME.

2.43 Mae Tabl 2.5 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

Tabl 2.5: Alldro AME yn ôl MEG	Cyllideb £m	Alldro £m	Tanwariant/Gorwariant £m	%
Addysg	1,476.9	1,277.8	199.1	13.5
Llywodraeth Leol a Thai	1,112.0	1,098.5	13.5	1.2
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	367.1	276.2	90.9	24.8
Trafnidiaeth	199.2	0.7	198.5	99.6
Yr Economi, Ynni a Chynllunio	126.5	16.0	110.5	87.3
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	42.0	25.6	16.4	39.0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	3.2	-2.0	5.2	162.8
Cyfiawnder Cymdeithasol	0.2	0	0.2	125.2
CYFANSWM	3,327.1	2,692.8	634.3	19.1

2.44 Roedd y tanwariant AME o £199.1m ym MEG y Gymraeg ac Addysg yn gysylltiedig â'r gyllideb benthyciadau i fyfyrwyr, sy'n cynnwys materion ac ad-daliadau a weinyddir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Roedd y tanwariant yn bennaf oherwydd ffioedd dysgu a materion o ran benthyciadau newydd ar gyfer graddau meistr yn is na'r disgwyl. Roedd swm y llog a ychwanegwyd at fenthyciadau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hefyd yn is na'r disgwyl.

2.45 Roedd y tanwariant o £13.5m ar y MEG Llywodraeth Leol a Thai i'w briodoli i gyllideb ardrethi annomestig yr awdurdodau lleol. Effeithir ar y cymorth sydd ar gael o'r gyllideb AME gan y nifer sy'n manteisio ar y cynllun rhyddhad ardrethi a ariennir drwy DEL adnoddau.

2.46 Roedd tanwariant o £90.9m ar y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol. O'r cyfanswm hwn, roedd £82.6m yn ymwneud â thanwariant ar gyllideb amhariadau'r GIG oherwydd llithriant prosiectau yn ogystal ag amcangyfrif gwallus yn y GIG. Roedd gweddill y tanwariant ar ddarpariaethau'r GIG. Roedd trosglwyddiad hawliadau yn arafach na'r disgwyl yng Nghronfa Risg Cymru.

2.47 Roedd tanwariant o £198.5m yn y MEG Trafnidiaeth. Roedd y tanwariant i'w briodoli i'r ffaith na ddefnyddiwyd y gyllideb ar gyfer amhariadau a amcangyfrifwyd ar gyfer dau gynllun ffyrdd. Roedd un cynllun wedi'i gwblhau ond ni arweiniodd at unrhyw amhariad. Disgwylir i'r ail gynllun gael ei gwblhau yn 2025-26.

2.48 Roedd y tanwariant o £110.5m ym MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio yn cynnwys darpariaeth nas defnyddiwyd o £50m ar gyfer Ynni Gwyrdd. Cafwyd tanwariannau gwerth cyfanswm o £52.6m hefyd ar gyllidebau rhwymedigaethau pensiwn cyrff hyd braich a £21m ar amhariadau asedau eiddo. Adroddwyd am danwariannau ychwanegol hefyd oherwydd na ddefnyddiwyd darpariaethau ar gyfer dyledion drwg, gan gynnwys darpariaethau gwerth £2.8m ar gyfer Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol a gwerth £1m ar gyfer Cadw. Cafodd y tanwariannau hyn eu gwrthbwysu gan orwariant o £17.8m ar gyllidebau Banc Datblygu Cymru yn dilyn addasiadau hwyr, a oedd yn ymwneud yn bennaf â cholledion heb eu gwireddu ar waredu asedau am werth teg.

2.49 Roedd tanwariant o £16.4m y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn cynnwys dwy brif elfen. Roedd tanwariant o £11m ar y gyllideb ar gyfer darpariaeth bensiwn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Cafwyd tanwariant pellach o £5m ar amhariadau coedwigaeth ac asedau biolegol CNC.

2.50 Adroddodd y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu danwariant AME o £5.2m. Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, roedd yr amrywiant hwn i'w briodoli i ddarpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar a chostau pensiwn eraill staff Llywodraeth Cymru. Y costau pensiwn yw'r gwahaniaeth rhwng buddion a gronnwyd yn ystod y flwyddyn a chyfraniadau ariannol a wnaed i'r gronfa. Mae'n anodd darogan y cyfraniadau hyn.

2.51 Roedd yr amrywiant yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol yn is na'r lefel de minimis.

3. Cario symiau ymlaen yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru

- 3.1** Mae Cronfa Wrth Gefn ar wahân yn bodoli i Gymru i helpu i reoli amrywiadau mewn refeniw o drethi ac mae'r Gronfa yn cynnig gallu cyfyngedig i gario tanwariannau drosodd rhwng blynyddoedd. Mae'r Gronfa wedi'i chyfyngu i gyfanswm o £350m. Cyfyngir y swm y gellir ei dynnu i lawr bob blwyddyn o Gronfa Wrth Gefn Cymru gan Drysorlys EF. Yn 2024-25, roedd y swm hwn wedi'i gyfyngu i DEL Adnoddau Cyllidol o £125m a DEL Cyfalaf o £50m.
- 3.2** Mae tabl 3 yn dangos y symudiadau ar Gronfa Cymru yn y flwyddyn ariannol 2024-25 sy'n cael eu disgrifio yn y paragraffau canlynol.
- 3.3** Yn dilyn cytundeb â Thrysorlys EF ar falansau terfynol Cronfa Wrth Gefn Cymru ar gyfer y flwyddyn flaenorol (2023-24), cafwyd cynnydd o £2.1m wedi hynny ym malans agoriadol rheolydd DEL Adnoddau Cyllidol.
- 3.4** Yn Ail Gyllideb Atodol 2024-25, adroddodd Llywodraeth Cymru am gronfeydd wrth gefn DEL heb eu dyrannu o £81m ar gyfer Adnoddau Cyllidol, £102.3m ar gyfer Cyfalaf Cyffredinol ac £15.4m ar gyfer Trafodiadau Ariannol Cyfalaf.
- 3.5** Ar ôl cyhoeddi'r Ail Gyllideb Atodol, gwnaeth Trysorlys EF addasiad hwyr i gyllideb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllid wedi'i glustnodi, gan arwain at ostyngiad o £9m i'r DEL Cyfalaf Cyffredinol.
- 3.6** Cynhwyswyd swm o £86m o Adnoddau Cyllidol a swm o £50m o Gyfalaf Cyffredinol i'w tynnu i lawr yng Nghyllideb Derfynol 2025-25. Cafodd £39m arall o gyllid DEL Adnoddau Cyllidol ei dynnu yn Ail Gyllideb Atodol 2024-25, sef yr uchafswm sydd ar gael.

- 3.7** Mae rheolaeth ofalus ar adnoddau wedi galluogi gostyngiad o £70m yn y benthycy cyfalaf arfaethedig. Adlewyrchir hyn mewn addasiad i'r gronfa wrth gefn.
- 3.8** Roedd yr Ail Gyllideb Atodol yn cynnwys newid o Adnoddau Cyllidol i Gyfalaf Cyffredinol o £176m. Cafodd Llywodraeth Cymru ganiatâd gan Drysorlys EF i ychwanegu £26m arall at y cyfanswm hwn ar ôl cyhoeddi'r gyllideb. Mae'r addasiad yn cael ei adlewyrchu yn y tabl.
- 3.9** Adlewyrchir alldro Llywodraeth Cymru ar gyfer DEL Adnoddau Cyllidol, Cyfalaf Cyffredinol a Thrafodiadau Ariannol Cyfalaf a gofnodir yn yr adroddiad hwn uchod fel symudiadau yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.
- 3.10** Mae alldro'r cyrff eraill a ariennir o DEL Cymru yn cael eu cymryd i ystyriaeth hefyd. Mae'r rhain yn ymwneud â Chomisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Comisiwn Etholiadol.
- 3.11** Cynlluniwyd ar gyfer derbyn trethi datganoledig o £3,851.6m yn yr Ail Gyllideb Atodol. Roedd y trethi gwirioneddol a gasglwyd yn £3,865.9m. Adlewyrchir y gwarged o £14.5m yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.
- 3.12** O'r tanwariant cyffredinol ar Drafodiadau Ariannol Cyfalaf, bydd swm o £45.8m yn cael ei ad-dalu i Drysorlys EF. Adlewyrchir yr ad-daliad fel symudiad yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.
- 3.13** Yn olaf, mae rhan o'r DEL Cyfalaf Cyffredinol wedi'i chlustnodi ar gyfer asedau a brydlesir o dan IFRS 16. O'r herwydd, ni ellir defnyddio unrhyw danwariannau o fewn y rhan honno sydd wedi'i chlustnodi ar unrhyw beth arall ac felly rhaid eu hildio yn ôl i Drysorlys EF. Roedd y tanwariant yn £157.2m, sy'n cael ei adlewyrchu yn y tabl.
- 3.14** Mae DEL Adnoddau Anghyllidol sydd heb ei ddyrannu na'i wario'n cael ei golli ac ni ellir ei gario drosodd yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

Tabl 3 Balans Cronfa Wrth Gefn Cymru gan gynnwys symiau a gariwyd ymlaen o ganlyniad i alldro DEL Cymru 2024-25

Cronfa Wrth Gefn Cymru	Adnoddau Cyllidol £m	Cyfalaf £m	Trafodiad au Ariannol Cyfalaf £m	Cyfanswm £m
Balans ar 1 Ebrill 2024	243.2	83.2	-	326.4
Addasiad i'r balans agoriadol	2.1	-	-	2.1
DEL heb ei ddyrannu yn Ail Gyllideb Atodol 2024-25	81.0	102.3	15.4	198.7
Addasiad Trysorlys EF i'r DEL ar ôl y gyllideb	-	-9.0	-	-9.0
Symiau a dynnwyd i lawr o'r gronfa wrth gefn	-125.0	-50.0	-	-175.0
Gostyngiad yn y benthyca	-	-70.0	-	-70.0
Addasiad ar gyfer y newid	-26.0	26.0	-	-
Alldro Llywodraeth Cymru	96.0	126.6	40.8	263.4
Alldro cyrff eraill	0.6	1.5	-	2.1
Alldro trethi datganoledig	14.3	-	-	14.3
Ad-daliadau Trafodiadau Ariannol	-	-	-45.8	-45.8
Ildio Cyfalaf IFRS 16	-	-157.2	-	-157.2
Balans ar 1 Ebrill 2025	286.2	53.4	10.4	350.0

3.15 Cyfanswm y balans yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru ar 1 Ebrill 2025 oedd £350m, sef yr uchafswm y gellid ei gario drosodd.

3.16 Yn y flwyddyn ariannol bresennol, mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu £40m o gyllid DEL Adnoddau Cyllidol i lawr yn y Gyllideb Atodol Gyntaf i gefnogi cynlluniau gwario. Caiff y symiau terfynol sy'n cael eu tynnu i lawr eu hadlewyrchu yn Ail Gyllideb Atodol 2025-26.

ATODIAD 1: Alldro DEL Adnoddau⁷ yn ôl BEL

LLINELLAU GWARIANT ADNODDAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL				
Llinell Wariant yn y Gyllideb	Cyllideb £000oedd	Alldro £000oedd	Tanwariant/Gorwariant	
			£000oedd	%
Dyraniadau Craidd y GIG	10,123,200	10,146,755	-23,555	-0.23
Dyraniadau Craidd y GIG - Heb fod yn arian parod	305,447	300,840	4,607	1.51
Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG	234,511	227,161	7,350	3.13
Iechyd a Gofal Digidol Cymru	63,474	62,217	1,257	1.98
Iechyd a Gofal Digidol Cymru - Heb fod yn arian parod	11,295	10,088	1,207	10.69
Addysg a Gwella Iechyd Cymru	329,784	329,181	603	0.18
Addysg a Gwella Iechyd Cymru - Heb fod yn arian parod	616	745	-129	-20.94
Gweithrediaeth y GIG	45,456	39,741	5,715	12.57
Iechyd Cyhoeddus Cymru	140,523	140,672	-149	-0.11
Y Gweithlu (GIG)	33,564	34,194	-630	-1.88
Cymru Iachach	59,069	54,769	4,300	7.28
Cyllidebau Eraill y GIG (Gwariant)	14,703	15,441	-738	-5.02
Cyllidebau Eraill y GIG - Heb fod yn arian parod	202	183	19	9.57
Addysg a Hyfforddiant	26,346	29,511	-3,165	-12.01
